| |
|---|
| Enw: Sarah Capstick |
| Sefydliad: Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru |
| e-bost/rhif ffon: safercommunities@wlga.gov.uk |
| Cyfeiriad:  One Canal Parade, Dumballs Road, Cardiff CF10 5BF |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cwestiynau**

**C1 Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i rannu'n bedwar maes ffocws allweddol (Partneriaethau, Prin, Byrhoedlog a Ddim yn Digwydd Eto). Ydych chi'n cytuno mai dyma'r meysydd ffocws / themâu cywir i'r cynllun ganolbwyntio arnynt?**

☒ **Ydw**
☐ Nac ydw
☐ Yn rhannol

**Esboniwch pam rydych o'r farn mai dyma'r meysydd ffocws / themâu cywir neu a ydych o'r farn bod angen dull gweithredu gwahanol.**

Mae'r pedwar maes ffocws allweddol yn ymddangos i fod yn briodol.

**C2 A yw'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu yn adlewyrchu'r camau lefel uchel mwyaf effeithiol a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru?**

☐ Ydw
☐ Nac ydw
☒ **Yn rhannol**

**Sut y gellir eu gwella?**

Roedd prinder cydnabyddiaeth ynghylch dioddefwyr ac effeithiau posib y cynllun gweithredu:

- Nid oes sôn am gyflawnwyr cam-drin domestig neu'r rheiny sydd o bosib yn cyflawni ffurfiau eraill o gam-drin lle mae'r cyflawnwr angen ei dynnu o'r sefyllfa ar unwaith er mwyn diogelu'r dioddefwyr.  Felly mae'n cyflwyno'r risg o gyflawnwyr yn defnyddio'r ffaith eu bod nhw methu â chael eu gwneud yn ddigartref i gyfiawnhau cael aros lle maen nhw.

- Mae darpariaeth lloches yn cael ei grybwyll ond nid yw'n glir yn y cynllun gweithredu os dylai'r weithred o ddiogelu dioddefwyr a'u teuluoedd mewn argyfwng gael blaenoriaeth pan nad yw'n bosib iddyn nhw aros yn y cartref a byddai'r risg o niwed yn parhau.
- Mae rhoi diwedd ar droi pobl allan yn achosi pryder o safbwynt diogelwch cymunedol. Mae ymchwil a gyflawnwyd gan Rwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru gyda Rhwydwaith Ymarferwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi nodi mai'r dull/pŵer o droi pobl allan yw'r weithred olaf un a bod cael gwared arno yn ystod y pandemig wedi achosi cynnydd mewn uwchgyfeiriadau o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a thrawma ychwanegol i ddioddefwyr. Ni all rhai o'r dioddefwyr symud oherwydd anableddau a bod angen addasu tai ac mae'r polisi o beidio â throi pobl allan wedi arwain at broblemau ac achosion ychwanegol.

**C3 A yw'r Cynllun Gweithredu yn cyd-fynd â meysydd polisi ac arferion perthnasol eraill?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☒ **Yn rhannol**

**Esboniwch pam ei fod yn cyd-fynd yn dda neu nodwch sut y gellid ei wella.**

Rydym yn bryderus bod diffyg cydnabyddiaeth ynghylch diogelwch cymunedol yn cynnwys diffyg sôn am bartneriaethau diogelwch cymunedol. Mae nifer o elfennau gwahanol sydd wedi cael eu crybwyll gydag ymgysylltiad uniongyrchol neu sy'n gorgyffwrdd gyda diogelwch cymunedol ac i beidio â chynnwys ei fod o risg i waith silo.

Er bod plismona heb ei ddatganoli mae nifer o feysydd lle mae gorgyffwrdd ac ymgysylltiad a gweithio gyda lluoedd yr heddlu yng Nghymru yn allweddol. Gellir cryfhau hyn yn y cynllun gweithredu.

**C4 Rydym wedi datblygu nifer o gamau gweithredu a cherrig milltir allweddol. Ydych chi o'r farn mai dyma'r rhai cywir?**

☒ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Yn rhannol

**C5 Ydych chi o'r farn bod unrhyw feysydd gweithredu allweddol na chânt eu cwmpasu gan y camau gweithredu lefel uchel? Os felly, pa rai?**
Rhowch sylwadau ychwanegol

Mewn egwyddor rydym yn cytuno ond byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth i ymddygiad gwrthgymdeithasol a phob math o gam-drin a throseddau casineb.
Rydym yn ymwybodol o brinder staff ar draws yr holl sectorau ar hyn o bryd ac yn gweld diffyg gwasanaethau Iechyd Meddwl yn cael ei godi fel problem gan bartneriaid Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar gyfer darparu cymunedau mwy diogel. Mae galw cynyddol ar gyfer ymagwedd fwy cydlynol i wasanaethau iechyd meddwl ledled yr holl feysydd gwaith sy'n holistaidd.
Mae'r angen am gartrefi diogel yn ymddangos i fod ar goll yn y cynllun gweithredu. Os darperir tai neu gartrefi sydd ddim yn addas i'r diben yna mae'r risgiau yn siŵr o gynyddu mewn gwasanaethau iechyd, diogelwch personol a chymunedol a chydlyniant cymunedol a'r effaith ar wasanaethau argyfwng yn yr ardaloedd hynny.

**C6 Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r Cynllun Gweithredu ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?**

Dim sylwadau.

**C7 Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r cynllun arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Dim Sylwadau.

**C8 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:**

Nodwch yma:

Rydym wedi darparu ymateb ar ran Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru. Deallwn fod ymateb ar wahân gan CLILC wedi cael ei gyflwyno sy'n canolbwyntio ar safbwynt y Cyngor yn unig.

**Cyflwyniad i Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru**
Sefydlwyd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn Ionawr 2021 yn dilyn argymhellion Adolygiad Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru. Nod y Rhwydwaith yw dod yn llais strategol ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru, gan gydweithio i gefnogi partneriaeth diogelwch cymunedol a dylanwadu ar siapio a datblygu polisi cenedlaethol ac ymarfer lleol.
Cefnogir yr ymateb gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).